**Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC): Pennod 7.5: Polisïau Strategol a Manwl – Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig**

| Rhif NMC | | Polisi/ Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| NMC | 269 | 7.5.2 | ***Symud y cyfeiriad at y Geoparc i'r rhan yn ymwneud gyda 'Cadwraeth Tirwedd':***<br><br>**Cadwraeth Natur:** Mae cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd er mwyn gwarchod bioamrywiaeth yn cael eu cyfeirio atynt yn Adran 42 (Cymru) o'r Ddeddf NERC (2006). Tu mewn i ardal y Cynllun, mae llawer o asedau pwysig o ran bioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Mae nifer o safleoedd sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ac wedi'u dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd a Chyfarwyddeb Adar yr Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â nifer of safleoedd Ramsar wedi sydd wedi eu dynodi dan y Confensiwn Ramsar. Mae hefyd nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol, sy'n ardaloedd o bwysigrwydd cenedlaethol ar gyfer cadwraeth natur a daeareg. Mae nifer o rywogaethau yn cael eu gwarchod gan gyfraith, sydd hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwella cynefinoedd. Mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd sydd o bwysigrwydd lleol i ardal y Cynllun, mae'r rhain yn cael ei amlygu yn y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Nid yw rhain yn safleoedd sydd wedi eu rhestru fel dynodiadau statudol. Fodd bynnag mae ganddynt hwy werth ecolegol uchel. Adnabyddir y rhain fel Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, sydd yn ddynodiadau anstatudol o werth cadwraeth natur sylweddol sydd yn cael eu selio yn gadarn ar asesiad ffurfiol gwyddonol. ~~Mae rhan o Ynys Môn wedi'i ddynodi fel Geoparc.~~ |
| NMC | 270 | 7.5.4 | ***Cynnwys cyfeiriad at y Geoparc ynghyd a'r rhesymeg fanwl dros ddynodi'r Ynys fel Geoparc:***<br><br>**Cadwraeth Tirwedd:** Mae gan ardal y Cynllun dirwedd arbennig ac amrywiol, yn cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, hyd at ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri. <u>**Hefyd mae Ynys Môn gyfan wedi'i ddynodi gan UNESCO fel Geoparc Byd Eang (Geoparc Byd Eang GeoMôn) er mwyn cydnabod daeareg arbennig yr ynys.**</u> Yn ogystal â'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, sydd wedi'u diogelu ar sail genedlaethol, mae gan ardal ehangach y Cynllun ddarnau o gefn gwlad sydd heb gael ei ddifetha ac sy'n arbennig yn lleol fel bod yn werth eu dynodi'n Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mae cymeriad a phrydferthwch y dirwedd yn gwella ansawdd bywyd y trigolion yn sylweddol, ac yn dod â buddion mawr, yn |

| Rhif NMC | | Polisi/<br><br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | gymdeithasol ac o ran iechyd. Mae hefyd yn atyniad mawr i bobl sy'n dymuno ymweld â'r ardal, a thrwy hynny'n cyflawni rôl bwysig ar gyfer yr economi leol. |
| **NMC** | **271** | PS 16 | ***Cryfhau geiriad y polisi ac i sicrhau cysondeb yn nhermau sicrhau cysondeb o ran disgrifio'r raddfa effaith, h.y. defnydd o 'arwyddocaol' neu beidio:***<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 16: GWARCHOD A LLE BO'N BERTHNASOL GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL**<br><br>**Bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiad er mwyn gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun a gwrthodir cynigion a fydd yn cael effaith sylweddol andwyol arnynt ~~arnydd~~ oni bai bod yr angen neu'r bendithion y datblygiad yn y lleoliad yna yn amlwg gorbwyso gwerth y safle neu'r ardal a pholisi gwarchodaeth cenedlaethol ar gyfer y safle a'r ardal dan sylw. Bydd yr Awdurdodau Cynllunio'n ystyried caniatáu cais byddant yn gwneud yn siŵr ei fod yn:**<br><br>**1. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes, yr arfordir a thirweddau ardal y Cynllun;**<br>**2. Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a ble'n berthnasol eu gosodiad yn unol â Pholisi Cenedlaethol;**<br>**3. Rhoi sylw priodol i arwyddocâd cymharol ~~y~~ dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wrth ystyried y pwysau i roi ar fuddiannau cydnabyddedig yn unol â Pholisi Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod unrhyw cyfrifoldebau ac ymrwymiadau rhyngwladol neu cenedlaethol yn cael eu cwrdd yn llawn;**<br>**4. Gwarchod ~~a~~ neu gwella bioamrywiaeth o fewn ardal y Cynllun a gwella a/neu adfer rhwydwaith cynefinoedd naturiol yn unol â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn unol â Pholisi Amg 4;**<br>**5. Gwarchod ~~a~~ neu gwella bioamrywiaeth drwy rwydwaith o isadeiledd gwyrdd/ glas;** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **6. Diogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol;**<br>**7. Gwarchod, parchu, cadw neu wella cymeriad a hynodrwydd lleol yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (yn unol â Pholisi AMG 2) ac Ardal Cymeriad y Morlun (yn unol â Pholisi AMG 3).**<br>**8. Gwarchod, parchu, cadw neu wella coed, gwrychoedd, coetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol a mwynderol**. |
| **NMC** | **272** | 7.5.7 | ***Diwygio'r geiriad er egluro'n er adlewyrchu pwysigrwydd amgylcheddol dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol o gymharu gyda statudol neu anstatudol lleol:***<br><br>~~Mae deddfwriaeth bresennol a pholisïau a chanllaw cynllunio cenedlaethol yn amlinellu datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol. Dylid cyfeirio atynt wrth ffurfio cynigion, a fyddent yn cael eu defnyddio'n lleol o fewn ardal y Cynllun gan y Cynghorau wrth ystyried ceisiadau cynllunio. O'r herwydd, ni fydd y rhain yn cael eu hailadrodd fel polisi ar wahân yn y Cynllun.~~ **<u>Mae Pennod 5 Canllawiau Cynllunio Cymru a NCT 5 yn gosod allan cyfarwyddyd a pholisïau rheolaeth datblygu cenedlaethol clir mewn perthynas â dynodiadau statudol, sy'n adlewyrchu'r pwysigrwydd amgylcheddol dynodiadau statudol rhyngwladol a chenedlaethol o'i gymharu gyda dynodiadau lleol statudol ac anstatudol.</u>** |
| **NMC** | **273** | 7.5.8 | ***Diwygio geiriad y polisi er mwyn egluro'r perthynas gyda tabl 23 ac i gyflwyno cyfeiriad at y Geoparc:***<br><br>Mae'r <u>**T**</u>abl <u>**23**</u> yn rhestru'r ~~canlynol yn manylu'r~~ <u>**holl**</u> ddynodiadau <u>**rhyngwladol a chenedlaethol**</u> statudol <u>**sy'n berthnasol i Ardal y Cynllun**</u> ac yn diffinio rhwymedigaeth y dynodiad. <u>**Er mai dynodiad anstatudol yw Geoparc GeoMôn, mae hefyd wedi ei gynnwys yn Nhabl 23 oherwydd ei ddynodiad gan UNESCO. Wrth baratoi a chysidro ceisiadau cynllunio fe ddylid ystyried PS16, PCYFF1 ynghyd a Pholisi Cynllunio Cymru ac NCT5. Mae'r ymagwedd yma yn golygu bod pob cais cynllunio yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd a pholisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf i osgoi ailadrodd diangen trwy'r Cynllun.**</u> |
| **NMC** | **274** | Tabl 23 | ***Cynnwys cyfeiriad i'r Geoparc yn nhabl 23:*** |

<table>
<tr><th colspan="2">Rhif NMC</th><th>Polisi/<br>Para/Map</th><th>Newid Materion sy’n Codi</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>
<table>
<tr><td></td><td>Geoparc Byd Eang</td><td>Dynodwyd gan UNESCO</td><td>Dim</td><td>• Nid yw Geoparc Byd Eang UNESCO yn ddynodiad deddfwriaethol – er hynny dylid gwarchod y safleoedd treftadaeth geolegol diffiniedig o fewn Geoparc Byd Eang UNESCO o dan ddeddfwriaeth gynhenid, leol, rhanbarthol a chenedlaethol priodol. Nid yw statws Geoparc Byd Eang UNESCO yn golygu cyfyngiadau ar unrhyw weithgaredd economaidd o fewn eu ffiniau, lle mae’r gweithgaredd yna yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth gynhenid, leol, rhanbarthol a/neu genedlaethol.</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>NMC</td><td>275</td><td>AMG 1</td><td>Diwygio’r geiriad er gwella eglurder y polisi:<br><br>POLISI AMG 1: ARDALOEDD O DIRWEDD ARBENNIG<br><br>Wrth ystyried cynigion o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) fel yr adnabyddir ar y Mapiau Cynigion a rhestrir isod, bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i raddfa a natur y datblygiad gan sicrhau na fyddai’n cael effaith andwyol sylweddol ar y dirwedd. Ble’n bosib fe ddylai’r datblygiad ychwanegu tuag at gynnal, gwella neu adfer y cymeriad cydnabyddedig yr ATA.<br><br>Dylai cynigion rhoi sylw i’r ~~a bod yn gyson a’r~~ ‘Datganiad o Werth ac Arwyddocâd’ perthnasol ~~pwrpasol sydd wedi ei baratoi~~.<br><br>Lle mae’n briodol ~~rhesymol i gredu y gall cynigion arwain i ardrawiad andwyol arwyddocaol ar ATA (un ai o fewn neu’n union du allan iddo)~~ bydd y Cyngor angen ~~yn disgwyl~~ Asesiad Ardrawiad Tirwedd a Gweledol er mwyn gallu ystyried ardrawiad y datblygiad ar yr ardal ddynodedig ~~ymhellach~~.<br><br>Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae’n rhaid cael y datblygiad ac y gallai arwain i ardrawiad arwyddocaol ar y dirwedd, bydd</td></tr>
</table>

| Rhif NMC | | Polisi/<br><br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **rhaid darparu mesurau lliniaru a digolledu priodol."** |
| **NMC** | **276** | 7.5.11 | ***Diwygio a chynnwys geiriad ychwanegol i egluro'r cefndir cydestyn i ATA ac i wella eglurder y geiriad yn yr eglurhad:***<br><br>~~Ar gyfer pob ATA mae yna 'Ddatganiad o Werth Arwyddocâd' wedi ei baratoi. Dylid cyfeirio tuag at y datganiad wrth ystyried cynigion datblygu o fewn yr ATA~~. Er mwyn diffinio'r ATA newydd fe gynhaliwyd adolygiad o'r ATA blaenorol gan geisio sicrhau fod yna fodd cyfiawnhau'r warchodaeth arbennig **(h.y. Adroddiad LUC 'Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn'). Fel rhan o adroddiad LUC, mae 'Datganiad o Werth ac Arwyddocâd' wedi ei baratoi ar gyfer pob ATA, gan dynnu sylw i'r rhinweddau a'r nodweddion sy'n arwyddocaol i'r dynodiad. Bydd rhaid i gynigion datblygu ddangos bod ystyriaeth wedi cael ei roi i'r 'Datganiad o Werth ac Arwyddocâd' perthnasol. Lle'n berthnasol, dylai hyn fod yn elfen allweddol o wybodaeth gefnogol ar gyfer y cais cynllunio (e.e. Datganiad Dylunio a Mynediad neu unrhyw ddatganiad cynllunio arall) er mwyn dangos bod y cynnig wedi ei ddylunio i ddiddymu neu leihau unrhyw ardrawiad annerbyniol ar y rhinweddau hynny oedd yn sail i ddynodi'r ATA. Dylai manylder y wybodaeth a fydd ei angen fod yn gymesur â graddfa'r cynnig. Er enghraifft, gall Asesiad Ardrawiad Tirwedd a Gweledol fod yn angenrheidiol lle mae'r cynnig yn debygol o gael ardrawiad ar gyfanrwydd a chynaliadwyedd dynodiad yr ATA, neu werthfawrogiad/canfyddiad y cyhoedd o unigrywiaeth a naws am le yn nhermau'r dirwedd. Mae'r Cynghorau yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio, a fydd yn rhoi arweiniad os fydd angen Asesiad Ardrawiad Tirwedd a Gweledol.** Mae'n bosib archwilio~~'r~~ **adroddiad LUC 'Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn'** ~~ddogfen sydd yn esbonio sut ddiffinnir yr ATA ynghyd a'r 'Datganiad o Werth Arwyddocâd'~~ **a'r safleoedd we Cyngor Sir Fôn (www.anglesey.gov.uk) a Chyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cym)** ~~trwy gais i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd."~~ |
| **NMC** | **277** | AMG 4 | ***Diwygio'r geiriad er gwella eglurder a chwmpas y polisi trwy gyfeirio at cadwraeth/bioamrywiaeth 'lleol':***<br><br>**POLISI AMG 4: CADWRAETH BIOAMRYWIAETH LEOL** |

| Rhif NMC | | Polisi/ Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **Dylai cynigion warchod a, ble'n briodol, gwella bioamrywiaeth sydd wedi cael ei hadnabod fel bod yn bwysig i'r ardal leol trwy:**<br><br>**a. Osgoi ardrawiad niweidiol sylweddol trwy leoli datblygiad sensitif;**<br>**b. Ystyried cyfleon i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt , cherrig sarn, coed, gwrychoedd, coedlannau a chyrsiau dŵr.**<br><br>**Gwrthodir cynigion sy'n effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth leol oni bai gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:-**<br>**1. Nad oes yno safle amgen arall ar gyfer y datblygiad.**<br>**2. Bod yr angen am y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd y safle i gadwraeth natur lleol.**<br>**3. Bod mesurau lliniaru neu ddigolledu priodol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynnig.**<br>**Ble'n angenrheidiol dylid cynnwys gyda'r cais cynllunio Asesiad Ecolegol sydd yn nodi'r materion bioamrywiaeth lleol berthnasol.** |
| **NMC** | **278** | 7.5.19 | ***Diwygio'r geiriad yn y cyfiawnhad er gwella eglurder:***<br><br>**Mae Adran 40 o'r Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf NERC") yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i ystyried y dasg o warchod bioamrywiaeth, cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag ymarfer y swyddogaethau hynny'n briodol.** ~~Nod y polisi hwn yw sicrhau gwarchodaeth a gwelliannau i fioamrywiaeth leol. Yn benodol bydd y polisi hwn yn fodd o warchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny sydd wedi cael eu hadnabod o fewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Gwynedd a Môn.~~ |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **NMC** | **279** | 7.5.20 | ***Diwygio'r geiriad yn y cyfiawnhad er gwella eglurder ac i ehangu ar gwmpas y polisi:***<br><br>Nod y polisi hwn yw sicrhau gwarchodaeth a gwelliannau i fioamrywiaeth leol. Yn benodol bydd y polisi hwn yn fodd o warchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny sydd wedi cael eu hadnabod o fewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Gwynedd a Môn. **Bydd y polisi yma yn rhoi gwarchodaeth i'r rhywogaethau a'r cynefinoedd cydnabyddiedig nad ydynt wedi eu lleoli ar unai safleoedd dynodedig rhyngwladol neu cenedlaethol (e.e. SoDdGA. Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol) neu safleoedd dynodedig lleol (e.e. Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Bywyd Gwyllt).** ~~Mae Adran 40 o'r Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf NERC") yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i ystyried y dasg o warchod bioamrywiaeth, cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag ymarfer y swyddogaethau hynny'n briodol.~~ |
| NMC | 280 | AMG 5 | ***Diwygio'r geiriad yn y cyfiawnhad er gwella eglurder y polisi:***<br><br>**POLISI AMG 5: GWARCHOD SAFLEOEDD O ARWYDDOCÂD RHANBARTHOL NEU LEOL**<br><br>**Gwrthodir cynigion fyddai'n debygol o achosi niwed arwyddocaol uniongyrchol neu anuniongyrchol i Warchodfa Natur Lleol (GNLl), Safleoedd Bywyd Gwyllt (SBG)[1] neu safleoedd daearegol/geomorffaidd pwysig rhanbarthol (RIGS), oni bai fod modd** |

**[1] Mae'r term 'Safle Bywyd Gwyllt yn cael ei ddefnyddio gan y Cynghorau i gynnwys y safleoedd hynny sy'n cael eu cyfeirio'r Polisi Cynllunio Cymru fel Safleoedd o Ddiddordeb o ran Cadwraeth Natur (SINCs). Mae Map Cyfyngiadau yn cynnwys 'Safleoedd Bywyd Gwyllt' a safleoedd bywyd gwyllt 'Ymgeisiol'. Mae'r diwethaf yn cyfeirio at safle sydd wedi ei gydnabod trwy arolwg pen desg gychwynnol fel gyda'r potensial i fod yn haeddu cael eu hystyried, tra bod 'Safle Bywyd Gwyllt' yn cyfeirio at y safleoedd hynny sydd wedi eu cadarnhau yn dilyn arolwg ag asesiad manwl yn erbyn cyfres o feini prawf. Bydd y polisi yma yn berthnasol i Safleoedd Bywyd Gwyllt. Gan nad oes asesiad cyflawn o'r safleoedd bywyd gwyllt 'Ymgeisiol' eisoes wedi ei gynnal hyd yn hyn, bydd eu gwerth bioamrywiaeth yn cael ei arfarnu fesul safle pryd bydd cynigon ddatblygu yn dod i law yn y lleoliadau hyn. Ni fydd Polisi AMG5 yn gymwys oni bai bod yr arolwg a'r asesiad manwl yn amlygu ei bod y cwrdd gyda'r meini ar gyfer dynodi perthnasol.**

| Rhif NMC | | Polisi/ Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **profi fod yna angen gorbwysol cymdeithasol, amgylcheddol a/neu economaidd ar gyfer y datblygiad, ac nad oes yna safle arall addas a fyddai'n osgoi cael effaith andwyol ar safleoedd o werth cadwraeth natur lleol ~~a~~ neu phwysigrwydd daearegol lleol.**<br><br>**Pan ganiateir datblygiad, bydd angen sicrhau fod yna fesurau lliniaru priodol mewn lle. Fe fydd yn bosib defnyddio amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio er mwyn diogelu gwerth bioamrywiaeth a daearegol y safle.** |
| **NMC** | **281** | 7.5.24 | ***Cynnwys geiriad yn y cyfiawnhad i gyfeirio bod Gwarchodfeydd Natur Leol, Safleoedd Bywyd Gwyllt a Safle Daearegol/Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol wedi eu nodi ar y Map Cyfyngiadau:***<br><br>Gall Gwarchodfa Natur Lleol, Safleoedd Bywyd Gwyllt a Safle Daearegol/Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol gynnwys amrywiaeth o rinweddau cadwraeth natur a nodweddion o werth daearegol gan gynnwys amrediad o gynefinoedd sydd yn cefnogi ystod o rywogaethau. **Mae lleoliad y safleoedd hyn wedi ei nodi ar Map Cyfyngiadau y Cynllun** |
| NMC | 282 | 7.5.25 | ***Gwella eglurder geriad y cyfiawnhad:***<br><br>Disgwylir i geisiadau cynllunio sydd yn effeithio ar safleoedd **sydd wedi eu rhestru o dan y polisi yma** ~~o bwysigrwydd i gadwraeth natur leol~~ gynnwys Asesiad Ecolegol o'r safle. Bydd yn hanfodol i'r Asesiad gael ei gynnal gan unigolyn cymwys proffesiynol a chynnwys asesiad o unrhyw fesurau lliniaru posib. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi arweiniad ar y mater. |
| **NMC** | **283** | PS 17 | ***Newid i sicrhau bod y Polisi yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaeth:***<br><br>**POLISI PS 17: DIOGELU A LLE BO'N BERTHNASOL WELLA ASEDAU TREFTADAETH**<br><br>**Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br><br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **diogelu a lle bo hynny'n berthnasol, yn gwella'r asedau treftadaeth unigryw:**<br><br>**Caniateir cynigion a fydd yn diogelu a <u>lle bo'n berthnasol</u> wella'r asedau treftadaeth a ganlyn, eu gosodiad a golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r adeilad /ardal:**<br><br>1. **Henebion Rhestredig ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol (yn unol â Pholisi AT 4).**<br>2. **Adeiladau Rhestredig a'u cwrtil.**<br>3. **Ardaloedd Cadwraeth (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>4. **Safleoedd Treftadaeth y Byd - Castell Biwmares a Chastell Caernarfon a Muriau'r Dref (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>5. **Ymgeisydd Safleoedd Treftadaeth y Byd.**<br>6. **Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>7. **Adeiladau o haeddiant pensaernïol/hanesyddol/diwylliannol nad ydynt wedi eu rhestru neu eu diogelu (yn unol â Pholisi AT3).** |
| **NMC** | **284** | 7.5.31<br><br>Tabl 25 | ***Newid y testun i gyfeirio at Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), cyfeirio'n benodol at Bolisi Cynllunio Cymru a'r pwysau a roddir i ddynodiadau gwahanol:***<br><br>~~Mae deddfwriaeth bresennol a pholisïau a chanllaw cynllunio cenedlaethol yn amlinellu datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol y dylid cyfeirio atynt wrth ffurfio cynigion a fydd yn cael eu defnyddio'n lleol o fewn ardal y Cynllun. O'r herwydd, ni fydd y rhain yn cael eu hailadrodd fel polisi ar wahân yn y Cynllun.~~ **<u>Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a Phennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn rhoi polisïau rheolaeth datblygu a chanllawiau cenedlaethol clir ar gyfer dynodiadau statudol, gan adlewyrchu pwysigrwydd hanesyddol arwyddocaol sydd i ddynodiadau statudol rhyngwladol, cenedlaethol a lleol o'i gymharu â dynodiadau lleol.</u>** ~~Er mwyn eglurder, rhain yw:~~ **<u>Mae Tabl 25 yn rhoi rhestr o ddynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol statudol sy'n berthnasol i ardal y Cynllun, a disgrifir goblygiadau'r dynodiad:</u>** |

<table>
<tr><th colspan="2">Rhif NMC</th><th>Polisi/<br>Para/Map</th><th>Newid Materion sy'n Codi</th></tr>
<tr><td>NMC</td><td>285</td><td>7.5.31<br>Tabl 25</td><td>Ddiwygio'r tabl i adlewyrchu canllawiau cynllunio cenedlaethol diweddaraf a nodir yn Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9- Tachwedd 2016) mewn perthynas â Safleoedd Treftadaeth y Byd:
<table>
<tr><td>Safleoedd Treftadaeth y Byd</td><td>Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96, 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth'</td><td>Pennod 6</td><td>Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd wedi cael eu dynodi gan UNESCO oherwydd eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Mae effaith datblygiadau arfaethedig ar Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad a, lle mae'n bodoli, parth clustogi Safle Treftadaeth y Byd, yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio.<br><br>~~Mae STB yn ystyriaeth gynllunio faterol sydd angen cael ei ystyried gan awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.~~<br><br>~~Fe fydd angen rhoi ystyriaeth briodol i effaith cynnig datblygiad ar safleoedd a'r gosodiad.~~<br><br>Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cael eu dangos ar y Map Cyfyngiadau ac wedi ei rhestru yn Atodiad 7 o'r Cynllun.</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>NMC</td><td>286</td><td>AT 1</td><td>Gwella eglurder y polisi trwy ddileu y cyfeiriad di-angen at 'Asesiadau manwl eraill sydd wedi eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol':<br><br>POLISI AT 1: ARDALOEDD CADWRAETH, SAFLEOEDD TREFTADAETH Y BYD A THIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL COFRESTREDIG<br><br>Bydd angen i gynigion o fewn neu sy'n effeithio ar osodiad a/neu olygfeydd arwyddocaol i mewn neu allan o Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig dangosir ar y Map</td></tr>
</table>

| Rhif NMC | | Polisi/ Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **Cyfyngiadau lle'n briodol ystyried:**<br><br>**1. Gwerthusiadau Cymeriad Ardaloedd Cadwraeth fabwysiedig; Cynlluniau a Strategaethau Cyflawni Ardaloedd Cadwraeth.**<br>**2. Cynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd.**<br>**3. Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.**<br>~~4. Asesiadau manwl eraill sydd wedi eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.~~<br><br>**Dylai cynigion gael eu cefnogi gan Asesiad Ardrawiad Treftadaeth, lle'n briodol.** |
| **NMC** | **287** | 7.5.36 | ***Diwygio testun esboniadol i adlewyrchu'r canllawiau cynllunio cenedlaethol diweddaraf a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9-Tachwedd 2016) mewn perthynas â phwysleisio pwysigrwydd dogfennau asesu manwl a defnyddio canllawiau cynllunio atodol, sy'n arbennig o berthnasol oherwydd bod y Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol a'r ymgeisydd yn dod o fewn awdurdodaeth mwy nag un awdurdod cynllunio lleol:***<br><br>Mae'r polisi yma yn anelu i sicrhau bod darganfyddiadau dogfennau asesiadau manwl yn cael eu hystyried yn llawn wrth ystyried cynigion datblygu. Bydd pob dogfen asesiad, e.e. Gwerthusiad Cymeriad Ardaloedd Cadwraeth, **Cynllun Rheolaeth Safleoedd Treftadaeth y Byd,** yn darparu diffiniad clir a chytunedig o'r agweddau sy'n ffurfio cymeriad arbennig, edrychiad a gwerth hanesyddol yr ardal. Bydd y dogfennau manwl yma **a chanllawiau cynllunio atodol yn ymwneud â'r dynodiadau yma yn cynorthwyo i gyfrannu i reoli newid mewn ffordd bositif ac yn** cario pwysau sylweddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. |
| **NMC** | **288** | AT 4 | ***Mireinio geiriad y polisi er sicrhau cysondeb mewn terminoleg mewn perthynas â disgrifio graddfa ardrawiad:***<br><br>**POLISI AT 4: DIOGELU SAFLEOEDD ARCHEOLEGOL NAD YDYNT WEDI'U DYNODI A'U GOSODIAD** |

| Rhif NMC | | Polisi/ Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **Bydd datblygiadau allai gael effaith andwyol arwyddocaol ar safleoedd o bwysigrwydd archeolegol cenedlaethol posib a'u gosodiad neu sydd â phwysigrwydd treftadaeth a gydnabyddir yn lleol, gan gynnwys safleoedd archeolegol diwydiannol nad ydynt wedi'u rhestru a'u gosodiad yn:**<br><br>**1. Cael eu hasesu o ran pwysigrwydd cynhenid y 'safle' a hyd a lled posib y niwed.**<br>**2. Gofyn, ble bo'n briodol, am un ai asesiadau archeolegol a/neu werthusiadau maes er mwyn pennu effaith archeolegol y datblygiad arfaethedig cyn i'r Awdurdod Cynllunio benderfynu ar y cais.**<br><br>**Gwrthodir datblygiadau fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.**<br><br>**Ble mae cynigion yn dderbyniol atodir amod i'r caniatâd yn datgan na ddylid ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad hyd nes y cytunir ar raglen o waith archeolegol.** |
| NMC | 289 | 7.5.47 | ***Diwygio er mwyn diweddaru'r Cynllun o ran y cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru:***<br><br>• Mae'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2009 yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli pob math o wastraff, gyda'r nod cyffredinol o leihau gwastraff gweddilliol i ddim byd erbyn 2050. Caiff y strategaeth ei chefnogi gan gyfres o gynlluniau sector sy'n manylu sut bydd y deilliannau, y targedau a'r Polisïau yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn cael eu gweithredu.<br>• Er mwyn galluogi awdurdodau Gogledd Cymru i gyflawni'r targedau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Sector Bwrdeistrefol a'r Cynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd (y CIMSP), sefydlwyd nifer o brosiectau ar draws gogledd Cymru, gan gynnwys Prosiect Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, sy'n ceisio cyfeirio gwastraff gweddilliol oddi wrth dirlenwi. Hefyd, mae partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a'r sector preifat wedi sicrhau bod offer treulio anaerobig wedi cael eu hadeiladu yng Ngwynedd a Sir Ddinbych i brosesu gwastraff bwyd a gesglir o dai a busnesau, gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy i'r grid a chynhyrchu gwrtaith 'bio' i'w ddefnyddio ar dir fferm leol. |

<table>
<tr><th colspan="2">Rhif NMC</th><th>Polisi/<br>Para/Map</th><th>Newid Materion sy’n Codi</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Bydd y prosiectau hyn yn dylanwadu’r angen gofodol am fathau penodol o gyfleuster gwastraff.<br>• Mae gwastraff yn thema gyffredin oherwydd caiff ei gynhyrchu gan bob math o ddefnyddiau tir, yn ystod gwaith adeiladu, gweithredu a dymchwel. Mae’r angen i newid y ffordd yr ymdrinnir â gwastraff yn cael ei gydnabod mewn polisi ar bob lefel.<br>• Mae Môn a Gwynedd yn awdurdodau gwledig a chanddynt dirwedd gyfoethog ac amrywiol sy'n cynnwys Ardaloedd Harddwch Naturiol Llŷn/Môn. Yn fwy na hyn, mae Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn ffinio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae gan y ddau awdurdod isadeiledd ffyrdd cyfyngedig sy’n gwasanaethu rhwydwaith o gymunedau bychain ag aneddiadau ar wasgar. Dylid cymryd camau i annog trosglwyddo gwastraff yn gynaliadwy trwy sicrhau bod darpariaeth rheoli gwastraff digonol ar draws ardal yr awdurdodau. Nod y Cynghorau yw lleihau faint o wastraff sy’n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi. Oherwydd natur cyfleusterau rheoli gwastraff, gallai fod yn briodol lleoli’r ddarpariaeth ar safle cyflogaeth addas.<br>• Mae’n rhaid sicrhau bod unrhyw bolisïau arfaethedig yn cydymffurfio ag egwyddorion Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 9, 2016 ~~7, 2014~~). Y Nodyn Cyngor Technegol perthnasol sy’n ymwneud â gwastraff yw NCT 21 Gwastraff (2014)</td></tr>
<tr><td>NMC</td><td>290</td><td>GWA 1</td><td>Diwygio geiriad y polisi er mwyn cyfeirio at safleoedd rheoli gwastraff a allai fod yn addas ar gyfer chwarel trefol:-<br><br>POLISI GWA 1: DARPARU ISADEILEDD RHEOLI GWASTRAFF AC AILGYLCHU<br><br>Mae'r tir a’r eiddo a restrir isod a fel y nodir ar y Map Cynigion, wedi eu dynodi ar gyfer darparu isadeiledd allai gynnal neu ychwanegu at yr ystod o gyfleusterau rheoli gwastraff addas.<br><br>
<table>
<tr><th></th><th>Enw’r safle</th><th>Lleoliad</th></tr>
<tr><td rowspan="4">Gwynedd</td><td>Tir yn Stad Ddiwydiannol Cibyn*</td><td>Caernarfon</td></tr>
<tr><td>Safle Llwyn Isaf</td><td>Clynnog Fawr</td></tr>
<tr><td>Coed Bolyn Mawr*</td><td>Ger Bethel</td></tr>
<tr><td>Stad Ddiwydiannol Penygroes*</td><td>Penygroes</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy’n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Williams & Williams | Pencaenewydd |
| | H Parry Composting* | Chwilog |
| | Cookes | Penrhyndeudraeth |
| | Cefn Graianog* | Llanllyfni |
| | Chwarel Bryncir* | Bryncir |
| | Chwarel Ithfaen Nanhoron* | Nanhoron, Pwllheli |
| | Rhan o Peblig | Caernarfon |
| | Chwarel y Penrhyn* | Bethesda |
| | Griffiths Crossing | Caernarfon |
| | Cefn Bychan | Blaenau Ffestiniog |
| | Chwarel Manod* | Blaenau Ffestiniog |
| Ynys Môn | Penhesgyn | Penmynydd |
| | Canolfan Ailgylchu | Gwalchmai |
| | Stad Ddiwydiannol Mona | Mona |
| | Cyn Safle Alwminiwm Môn* | Caergybi |
| | Chwarel Rhuddlan Bach* | Brynteg |
| | Chwarel Cae’r Glaw* | Gwalchmai |
| | Chwarel Nant Newydd* | Brynteg |
| | Chwarel Bwlch Gwyn* | Pentre Berw |

*Safleoedd sy’n addas ar gyfer chwareli trefol fel y diffinnir gan NCT 21:Gwastraff

| Rhif NMC | | Polisi/ Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **Yn ychwanegol i'r safleoedd uchod sydd wedi eu dynodi, gallai cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu, ac eithrio tirlenwi a chompostio mewn rhenciau agored, fod yn dderbyniol ar stadau diwydiannol, chwareli a safleoedd tir llwyd presennol. Bydd cynigion am isadeiledd rheoli gwastraff ac ailgylchu (na chânt eu cynnig ar y safleoedd dynodedig uchod) yn cael eu hasesu ar eu rhinweddau eu hunain, cyn belled â bod angen cyfiawn am y datblygiad. Dylai'r angen cyfiawn gyfeirio at yr angen lleol fel y nodir yn y Cynllun Sector Bwrdeistrefol a'r Cynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd (y CIMSP).**<br><br>**Rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd fod yn addas o ran maint a graddfa ac ni ddylai gael effaith andwyol ar y dirwedd, yr amgylchedd naturiol nac amwynder ac iechyd y boblogaeth leol. <u>Dylai pob cynnig ar gyfer cyfleusterau Rheoli Gwastraff cynnwys Asesiad Cynllunio Gwastraff (fel y'i diffinnir gan Atodiad B, NCT 21: Gwastraff.</u>** |
| **NMC** | **291** | 7.5.48a | ***Cynnwys testun ychwanegol sydd yn ehangu ar y diwygiadau a gynigir i Polisi GWA1:-***<br><br>**<u>Gall rhai o'r safleoedd sydd wedi eu rhestru yn y polisi fod yn addas ar gyfer chwareli trefol neu ystorfa ar gyfer pwrpas storio gwastraff adeiledig a dymchwel, a fyddai'n fodd o osgoi tirlenwi diangen o wastraff anadweithiol yn unol gydag NCT21: Gwastraff.</u>** |
| NMC | 402 | 7.5.1 | ***Diwygio testun eglurhaol i wella eglurder:***<br><br>Yn unol â'r hierarchaeth wastraff a nodir yn NCT 21, mae dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn golygu y bydd rhaid cael mwy o bwyslais ar leihau, ailddefnyddio ac adfer gwastraff, a llai o ddibyniaeth ar waredu heb adfer. **<u>Mae rheoli gwastraff yn cynnwys, er enghraifft, cadw, trin, storio, derbyn/ trosglwyddo a gwaredu gwastraff.</u>** |
| **NMC** | **292** | GWA 2 | ***Diwygio geiriad y polisi er mwyn eglurder ac er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio hefo Polisi Cynllunio Cenedlaethol:-*** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **POLISI GWA 2: RHEOLI GWASTRAFF ~~TU ALLAN I FFINIAU DATBLYGU A SAFLEOEDD DYNODEDIG~~**<br><br>**Caniateir cynigion i reoli gwastraff <u>ar safleoedd priodol</u> ~~tu allan i ffiniau datblygu~~ a safleoedd dynodedig (yn unol â Pholisi GWA 1) (gan gynnwys <u>er enghraifft</u> gwastraff <u>bwrdeistrefol</u> bioddiraddadwy trwy gompostio, yn cynnwys treuliad anaerobig a chompostio mewn cynhwysydd <u>a gwastraff arbenigol (e.e. gwastraff ymbelydrol lefel isel, gwastraff clinigol a gwastraff peryglys)</u> <u>yn unol a'r hierarchiaeth gwastraff</u> cyn belled â bod angen amlwg am y datblygiad<u>, bod y datblygiad wedi ei gefnogi gan Asesiad Cynllunio Gwastraff (fel y'i diffinnir gan NCT 21:Gwastraff)</u> ac ei fod yn cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:**<br><br>1. **Nid oes safleoedd dynodedig ar gael, neu maent yn anaddas ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig.**<br>2. **Nid oes safleoedd addas oddi mewn i'r ffin ddatblygu.**<br>3. **Bydd y cynnig yn ymgorffori mesurau i liniaru'r effaith ar yr amgylchedd ac iechyd ac amwynder y boblogaeth leol.**<br>4. **Mae graddfa a natur y cynnig yn briodol o ran y safle a'r ardal o'i amgylch.**<br>5. **Ni fyddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar amgylchedd naturiol a gwerth treftadaeth yr ardal.**<br>6. **<u>Nad yw'r datblygiad na'r traffig cysylltiedig yn arwain at aflonyddwch annerbyniol i'r gymuned leol yn sgil llygredd sŵn, arogl, cryndod neu aer.</u>**<br><br>**<u>Fe fydd pob cynnig yn cael ei ystyried yn unigol, gan roddi ystyriaeth i ffactorau gan gynnwys natur, math, maint, angen a lleoliad y datblygiad.</u>** |
| **NMC** | **293** | 7.5.54 | **Diwygio geiriad yr eglurhad er eglurder:-** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br><br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd **angen i g**ynigion **arddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i safleoedd o werth bioamrywiaeth a thirwedd ryngwladol, genedlaethol, rhanbarthol a lleol un unol gyda chyfarwyddyd polisi cynllunio cenedlaethol ynghyd a pholisïau perthnasol y Cynllun.** ~~oddi mewn neu'n union gerllaw ardaloedd tirwedd sydd wedi'u dynodi, megis Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd Tirwedd Arbe nnig, yn cael eu profi'n drylwyr i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar y dynodiad na'i osodiad.~~ |
| **NMC** | **294** | GWA 3 | ***Diweddaru'r testun er mwyn cydymffurfio hefo'r strategaeth Gwastraff Ymbelydrol Cenedlaethol:-***<br><br>**POLISI GWA 3:** ~~TRIN A STORIO~~ **RHEOLI GWASTRAFF YMBELYDROL** ~~LEFEL ISEL[2] AC ISEL IAWN[3]~~<br><br>**Caniateir cyfleusterau ar gyfer ~~trin,~~ storio a/neu ~~waredu~~ rheoli gwastraff ymbelydrol** ~~Lefel Isel ac Isel Iawn~~ **a gynhyrchir o fewn y safle niwclear trwyddedig yn Wylfa/Wylfa Newydd** ~~ar y safle i hwyluso busnes presennol,~~ **cyn belled ei fod yn cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:**<br><br>**1. Mae'n gyson â~~'r~~ strategaethau a pholisiau c~~g~~enedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff ac arllwysiadau ymbelydrol** ~~Lefel Isel ac Isel Iawn a/neu'r cynlluniau dadgomisiynu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa~~**.**<br>**2. Mae canlyniad asesiadau cymdeithasol, economaidd a iechyd yr amgylchedd yn cyfiawnhau trin y gwastraff yn y** |

~~[1]Gwastraff lefel isel (GLI) yw gwastraff ymbelydrol gyda chynnwys ymbelydrol dim mwy nag 4 GBg/te (gigabecuerels pob tunnell) o alpha neu 12 GB/te o weithgaredd beta/gamma. Mae GLI yn cyfrannu hyd at 90% o etifeddiaeth cyfaint gwastraff ymbelydrol y DU ond yn cynnwys llai na 0.1% o'r cyfanswm ymbelydredd.~~

~~[2]Gwastraff lefel isel iawn (GLII) yw is gategori o GLI ac wedi ei ddiffinio un ai fel GLII cyfaint isel neu GLII cyfaint uchel. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad yw'r angen am reolaeth dros y cyfanswm cyfaint o gyfaint uchel GLII sy'n cael ei waddod mewn unrhyw gyfleuster tirlenwi neu wastraff arall.~~

| Rhif NMC | | Polisi/<br><br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **lleoliad arfaethedig** ~~ar y safle neu mewn lleoliadau priodol tu allan i'r prif safle niwclear~~.<br><br>3. **Caiff cyfleusterau eu lleoli a'u dylunio er mwyn lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd a mae mesurau adfer amgylcheddol priodol ar gael.**<br><br>~~4. Bydd cynigion yn cydymffurfio â'r ystyriaethau cyffredinol a amlinellir ym Mholisi GWA 1.~~ |
| **NMC** | **295** | 7.5.56 | ***Diwygio'r eglurhad er mwyn cyd-fynd a'r diwygiadau a gynigir i Bolisi GWA3:-***<br><br>~~Tu mewn i ardal y Cynllun mae yna fusnesau, sefydliadau ymchwil ynghyd â sefydliadau gofal iechyd sy'n cynhyrchu gwastraff ymbelydrol isel ac isel iawn. Mae'r orsaf bŵer niwclear presennol yn Wylfa yn hysbys fel safle sy'n cynhyrchu gwastraff ymbelydrol lefel isel ac isel iawn, a bydd y safle'n stopio cynhyrchu trydan yn 2015. Bydd y broses ddadgomisiynu wedyn yn cychwyn.~~ **Mae Gorsaf Bwer Niwclear Wylfa yn cael ei dadgomisiynu ar hyn o bryd.** Mae'r broses ddadgomisiynu yn debygol o ~~ddatgelu~~ **arwain at** llawer iawn o wastraff ymbelydrol Lefel **Canolraddol (1)** Isel **(2)** ac Isel Iawn **(3)**<br><br>**Troednodyn:**<br><br>**(1) Mae gwastraff lefel canolradd yn fwy ymbelydrol na gwastraff ymbelydrol lefel isel (gweler isod), ond nid yw'n cynhyrchu digon o wres i'w wneud yn ofynnol i hyn gael ei ystyried mewn cyfleusterau storio neu ei waredu. Fodd bynnag, fel gwastraff ymbelydrol arall mae dal angen eu cadw i ddiogelu pobl a'r amgylchedd. Mae GLC yn deillio'n bennaf o ailbrosesu gweddillion tanwydd a gweithrediadau cyffredinol a chynnal a chadw ar safleoedd niwclear, a gall gynnwys eitemau metel fel cladin tanwydd a chydrannau adweithydd, graffit o greiddiau adweithydd, a slwtsh o driniaeth elifion ymbelydrol hylifol**<br><br>**(2) Gwastraff lefel isel (GLI) yw gwastraff ymbelydrol gyda chynnwys ymbelydrol dim mwy nag 4 GBg/te (gigabecuerels pob tunnell) o alpha neu 12 GB/te o weithgaredd beta/gamma. Mae GLI yn cyfrannu hyd at 90% o etifeddiaeth cyfaint gwastraff ymbelydrol y DU ond yn cynnwys llai na 0.1% o'r cyfanswm ymbelydredd.** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **(3) Gwastraff lefel isel iawn (GLII) yw is gategori o GLI ac wedi ei ddiffinio un ai fel GLII cyfaint isel neu GLII cyfaint uchel. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad yw'r angen am reolaeth dros y cyfanswm cyfaint o gyfaint uchel GLII sy'n cael ei waddod mewn unrhyw gyfleuster tirlenwi neu wastraff arall.** |
| **NMC** | **296** | 7.5.59 | ***Dileu'r cyfeiriad a wneir at gwastraff ymbelydrol lefel isel ac isel iawn:-***<br><br>Mae'r Polisi hwn yn darparu ar gyfer gweithredu cyfleusterau o'r fath oddi mewn i derfynau'r Safle **Niwclear** Trwyddedig. ~~Mae'r polisi hwn yn berthnasol i storio gwastraff ymbelydrol Lefel Isel a Lefel Isel Iawn yn unig, ac ni fyddai'n caniatáu gwaredu Gwastraff Lefel Canolig ar y safle~~. |
| **NMC** | **297** | PS 19 | ***Cynnwys maen prawf ychwanegol sydd yn cyfairio at ddarparu ychwaneg o gapasiti ar gyfer agregau safon uwch:-***<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 19: MWYNAU**<br><br>**Bydd y Cynghorau yn cyfrannu tuag at alw rhanbarthol a lleol am gyflenwad mwynau yn unol a'r amcanion allweddol ac egwyddorion cynaliadwyedd.**<br><br>**1. Ddiogelu adnoddau mwynau posib / y gwyddys amdanynt rhag datblygiad parhaol fyddai'n eu sterileiddio neu'n rhwystr i'w hechdynnu yn unol gyda MWYN 1.**<br>**2. Cynnal isafswm banc tir o Dywod a Graean am 7 mlynedd a banc tir wrth gefn o agregau cerrig mâl am 10 mlynedd yn unol ag arweiniad cenedlaethol.**<br>**3. ~~Macsimeiddio defnydd~~ Gwneud y mwyaf o ddeunyddiau eilaidd a deunyddiau wedi'u hailgylchu a gwastraff mwynau;** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | 4. <u>Darparu ar gyfer cynnal banc tir agregau gan gynnwys darpariaeth a chapasiti cynhyrchiol ar gyfer agregau safon uwch;</u><br>5. **Cydnabod, pan fo modd cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy, fod ymestyn chwareli a/neu chwareli newydd yn debygol o fod yn briodol.**<br>6. **Ble mae angen cyflenwad newydd o fwynau, dylai'r rhain ddod o leoliadau lle nad oes llawer o gyfyngiadau amgylcheddol a ble yr ystyrir y goblygiadau i gludiant.**<br>7. **Gwarchod cyfleusterau glanfeydd a therfynfeydd morwrol fel modd o annog cludo agregau mewn modd cynaliadwy.**<br>8. **Sicrhau yr adferir y tir a gwaith ôl-ofal da.**<br>9. **Lleihau'r gwrthdaro posib rhwng defnyddiau tir sy'n gysylltiedig â mwynau a defnyddiau tir nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau.**<br>10. **Adolygir pob safle mwynau sydd wedi ei nodi ar y mapiau cynigion yn segur neu'n anweithredol ers cyfnod hir er mwyn asesu eu cyfraniad posib i'r banc tir a'r tebygolrwydd o'u hailagor. Ble'n briodol, cyflwynir Gorchmynion Gwahardd.** |
| **NMC** | **298** | MWYN 1 | ***Cywiro geiriad y polisi er mwyn cyfeirio ar dangos yr Ardal Diogelu Mwynau ar y mapiau cynigion nid y mapiau cyfyngiadau ynghyd a diwygiaddau pellach i'r polisi er mwyn eglurder:-***<br><br>**POLISI MWYN 1: DIOGELU ADNODDAU MWYNAU**<br>**Mae Ardaloedd Diogelu Mwynau wedi'u hadnabod a'u dangos ar y Map ~~Cyfyngiadau~~ <u>Cynigion</u> i sicrhau y diogelir adnoddau mwynau y gwyddys amdanynt i'r dyfodol. Diogelir adnoddau mwynau rhag datblygiadau nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau fyddai'n eu sterileiddio neu'n rhwystr i'w cloddio. Ni chaiff cynigion am ddatblygiadau nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau eu caniatáu o fewn Ardaloedd Gwarchod Mwynau oni bai:**<br>~~1. Na fyddai datblygiad o'r fath yn cael effaith sylweddol ar allu i wneud y defnydd mwyaf o'r mwynau yn y dyfodol; neu y caiff y mwynau eu cloddio cyn gweithredu'r datblygiad.~~<br>~~2. Y gellir dangos fod yr angen am y datblygiad yn gorbwyso'r angen i warchod yr adnodd mwynau ac os yw hynny'n bosib, y caiff y mwynau eu cloddio cyn gweithredu'r datblygiad.~~ |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | 1. **Bod y datblygwyr yn gallu profi fod gweithio'r adnodd yn economaidd neu ffisegol anymarferol neu'n amgylcheddol annerbyniol; neu**<br>2. **Y gellir echdynnu'r adnodd mwynau'n dderbyniol cyn ymgymryd â'r datblygiad; neu**<br>3. **Bod y datblygiad o natur dros dro ac y gellid ei gwblhau a dychwelyd y safle i gyflwr nad yw'n rhwystro echdynnu o fewn graddfa amser y disgwylir bydd angen am y mwyn; neu**<br>4. **Bod yna angen gorbwysol ar gyfer y datblygiad; neu**<br>5. **Bod y datblygiad yn ddatblygiad deiliad tŷ neu yn ddatblygiad mewnlenwi cyfyngedig o fewn ardal adeiledig bresennol.** |
| NMC | 299 | 7.5.62 | ***Cynnwys eglurder pellach mewn perthynas a phwrpas yr Ardaleodd Diogelu Mwynau:-***<br><br>**Mae'r dynodiad ardal diogelu mwynau yn amlygu'r potensial o adnodd fwyn yn unig. Fe fyddai angen ymgymryd â gwaith ychwanegol er mwyn canfod os yw'r ardal yn addas ar gyfer gweithio mwynau.** Gan fod mwynau **wedi eu cyfyngu i leoliad penodol** ~~'n un sefydlog~~ ac nad ydynt wedi'u dosbarthu'n gyson, mae'n rhaid gwybod lle y maent er mwyn gwneud penderfyniadau cynllunio effeithiol a chynaliadwy, gan ystyried anghenion y dyfodol. Gall datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau wahardd neu gyfyngu mynediad at adnoddau mwynau ac mae'r broses o warchod mwynau yn sicrhau na wnaiff hyn ddigwydd yn ddiangen wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. I gael system ddiogelu effeithiol, rhaid mabwysiadu ardaloedd diogelu mwynau a mabwysiadu polisïau addas. |
| NMC | 300 | 7.5.62a | ***Cynnwys eglurhad pellach er mwyn eglurder:***<br><br>**Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu sy'n effeithio ar adnoddau mwynau ddangos, drwy archwiliad priodol, na fydd yr adnodd yn cael ei sterileiddio neu ddangos na fydd echdynnu yn y dyfodol yn cael eu llesteirio gan y datblygiad arfaethedig. Ble mae yno** |

| Rhif NMC | | Polisi/ Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **angen gorbwysol am y datblygiad, a fyddai fel arall yn sterileiddio'r adnodd, gosodir amod cynllunio ar y cais cynllunio fydd yn gwneud hi'n ofynnol i gloddio am yr adnodd cyn dechrau'r datblygiad, oni bai bod y datblygwr yn gallu profi'n foddhaol bod hynny'n anymarferol neu'n amgylcheddol annerbyniol.** |
| NMC | 301 | 7.5.63 | ***Cynnwys geiriad pellach i'r eglurhad er mwyn cyfeirio at y ffaith y bydd modd gweld yr Ardal Diogelu Mwyn Metalaidd Mynydd Parys ar y mapiau cynigion:-***<br><br>Mae gan Ynys Môn a Gwynedd fwynau metelaidd a diwydiannol megis copr, sinc, manganîs, aur ac arian. Ceir dyddodion sylweddol o gopr a sinc yn Ynys Môn o amgylch Mynydd Parys a dylai'r rhain dderbyn gwarchodaeth benodol rhag unrhyw ddatblygiad arall a dylid cydnabod y potensial i'w defnyddio yn y dyfodol**, mae'r Ardal Gwarchod Metelifferaidd Mynydd Parys wedi ei ddangos ar y Map Cyfyngiadau**. Er bod prisiau wedi bod yn anwadal yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw byd-eang am y mwynau hyn wedi cynyddu. |
| NMC | 302 | 7.5.63a | ***Diwygio testun y polisi er mwyn eglurder yng nghyd destun yr adnodd gwarchod mwynau:-***<br><br>~~Yn unol â chyfarwyddyd Polisi Cynllunio Cenedlaethol mae ardaloedd adnodd mwynau wedi eu cydnabod ar y Map Cynigion.~~ **Mae'r ardaloedd adnodd mwynau cydnabyddedig fel a ddangosir ar y mapiau Cynigion wedi eu isrannu i dri grŵp:-**<br><br>• **adnodd carreg galed,**<br>• **carreg galch,**<br>• **tywod a graean.**<br><br>**Mae'r ardaloedd adnodd mwynau yn seiliedig ar Fap Diogelu Agregau Cymru ar y cyd ag Arolwg Daearegol Prydain (2012) ac astudiaeth 'Adnodd Tywod a Graean' yng Ngogledd Orllewin Cymru' gan Brifysgol Lerpwl (2003).** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| NMC | 303 | 7.5.64 | ***Dileu'r cyfeiriad at y bosibilrwydd o warchod Adnodd Mwyn Metalaidd mewn canlyniad i'r `diwygiadau a gynigir i para 7.5.63:-***<br><br>~~Byddai modd cyfiawnhau ardal gwarchod arbennig neu ardal a ffafrir chwilio, gan gofio'r tebygolrwydd o gael adnoddau metelaidd o amgylch Mynydd Parys, a hefyd gan ystyried y gofynion seilwaith i ailgychwyn y gwaith.~~ |
| NMC | 304 | 7.5.64 | ***Dileu testun er mwyn cywirdeb (newid yn berthnasol i'r fersiwn Saesneg yn unig):-***<br><br>A decision to safeguard a particular mineral resource does not imply that planning permission will be granted for its working. In instances where ~~there has~~ need for the development outweighs the need to protect the mineral resource the developer would be encouraged to secure the prior removal of the mineral, wherever appropriate in terms of economic feasibility and environmental and other planning considerations, prior to the commencement of the development. |
| **NMC** | **305** | MWYN 2 | ***Diwygio geiriad y polisi er mwyn adlewyrchu Polisi Cynllunio Cymru:-***<br><br>**POLISI MWYN 3: ARDALOEDD CHWILIO A FFAFRIR**<br><br>**Er mwyn cynnal darpariaeth i ddiwallu angen cydnabyddedig y diwydiant perthnasol yn y dyfodol, mae 'Ardaloedd ~~Chwilio~~ a Ffafrir ~~Dethol'~~ am gyflenwadau tywod a graean y dyfodol wedi'u hadnabod ar y Map** ~~Cyfyngiadau~~ **Cynigion yn yr ardaloedd canlynol:**<br><br>**Cae Efa Lwyd, Penygroes**<br>**Tan y Bryn, Penygroes**<br>**Bodychain, Llanllyfni**<br>**Derwyn Fawr, Bryncir**<br>**Llecheiddior Uchaf, Bryncir** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **Er mwyn cynnal darpariaeth i ddiwallu angen cydnabyddedig y diwydiant perthnasol yn y dyfodol, mae Ardaloedd ~~Chwilio~~ a Ffafrir ~~Dethol~~ am gyflenwadau cerrig mâl y dyfodol wedi'u hadnabod ar y Mapiau Cynigion yn yr ardaloedd canlynol:**<br>**Rhuddlan Bach**<br>**Cae'r Glaw**<br>**Gwyndy**<br>**Bwlch Gwyn**<br>**Hengae**<br>**Nant Newydd** |
| **NMC** | **306** | 7.5.67 | ***Diwygio geiriad yr eglurhad er mwyn adlewyrchu Polisi Cynllunio Cymru:-***<br><br>Serch hynny, nid oes gan y Cynghorau ddigon o wybodaeth i ddyrannu safleoedd penodol ar gyfer tywod a graean ond mae'n ystyried y gellir adnabod Ardaloedd **a Ffafrir** ~~Chwilio Eang Dethol~~ ar gyfer tywod a graean yn seiliedig ar yr adroddiad a gomisiynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef *The Sand and Gravel Resources of North Wales*, a luniwyd gan Brifysgol Lerpwl ac Enviros (2003) yn ogystal â'r astudiaeth flaenorol, '*Assessment of Sand and Gravel Resources in the Eastern Llyn Peninsula'*, a gynhaliwyd gan Brifysgol Lerpwl yn 1988. |
| **NMC** | **307** | 7.5.67 | ***Diwygio geiriad y polisi er mwyn adlewyrchu Polisi Cynllunio Cymru:-***<br><br>Mae'r ardaloedd ~~chwilio~~ **a ffafrir** ~~dethol~~ a nodir uchod yn creu'r potensial i ryddhau cronfeydd wrth gefn newydd sy'n llawer |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | mwy na'r lleiafswm o 3 miliwn tunnell a argymhellwyd gan y DTRh i ganiatáu ar gyfer yr elfennau ansicr, i ddarparu dewis i'r Diwydiant Mwynau ac i annog cyflenwadau lleol a lleihau pellteroedd cludo. |
| NMC | 308 | MWYN 4 | ***Cynnwys eglurder pellach o fewn geiriad y polisi er mwyn cyfeirio at gweithfeydd mwynau 'newydd':-***<br><br>**POLISI MWYN 4: DATBLYGIADAU MWYNAU**<br><br>**Caniateir cynigion datblygu ar gyfer chwilio am fwynau, mwyngloddio newydd neu ymestyniadau i weithfeydd presennol i gynnal banc tir agregau ardal y Cynllun, neu i ddiwallu'r galw am fwynau eraill os gellir cydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn:**<br><br>**1. Nid oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau nac iechyd trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu, arogleuon a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun neu'r symudiadau traffig a geir yn ei sgil.**<br>**2. Mae yna fyffer addas rhwng datblygiadau mwynau a datblygiadau sensitif.**<br>**3. Nid oes niwed annerbyniol i sefydlogrwydd a chynhaliaeth tir cyfagos.**<br>**4. Mae'r datblygiad wedi'i sgrinio a'i dirweddu mewn modd sensitif.**<br>**5. Ni fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol o ran yr amgylchedd, cadwraeth natur, y dirwedd ac /neu dreftadaeth.**<br>**6. Nid yw'r cynnig yn sterileiddio neu'n atal gweithio dyddodion mwynau eraill o bwys;**<br>**7. Nid oes niwed annerbyniol i ddraeniad dŵr daear ac adnoddau dŵr.**<br>**8. Mae'r cynnig yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar ddefnydd posib yr adnodd ac y caiff unrhyw wastraff sy'n deillio o'r mwyngloddio ei waredu'n foddhaol.**<br>**9. Pan fo ffrwydro'n rhan o'r cynnig, mae'r cynnig yn cynnwys cynllun ffrwydro i ddangos y gellir ei reoli i ddiwallu'r** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **anghenion a fanylir arnynt yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau NCTM (Cymru) 1: Agregau, neu unrhyw ddiwygiadau.**<br>**10. Mae'r bwriad yn cynnwys cynllun ôl-ddefnydd ar gyfer y safle a manylion y gwaith adfer ac ôl-ofal sy'n ofynnol i gyflawni hynny yn unol â Pholisi MWYN11.**<br>**Pan fo'n ymarferol yn economaidd, dylid cludo gwastraff neu gynnyrch mwynau ar y rheilffyrdd neu ar ddŵr.** |
| NMC | 309 | 7.5.70 | ***Dileu cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cenedlaethol Mwynau er mwyn diweddaru'r Cynllun:***<br>Er mai defnydd tir dros dro yw mwyngloddio, fe all gael effaith sylweddol ar fwynderau lleol ac ar yr amgylchedd. Gallai rhai effeithiau olygu fod y datblygiad yn cael ei ystyried yn annerbyniol. Mae'r polisi hwn yn ceisio nodi'r agweddau hynny o ddatblygiadau mwynau sydd angen eu rheoli er budd mwynderau lleol a'r amgylchedd. ~~Roedd PCMC yn~~ **Mae** disgwyl i gynlluniau datblygu amlinellu'r meini prawf fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer cynigion mwynau a rhestru'r materion sydd angen sylw. Mae polisïau eraill o fewn y Cynllun ac mewn Polisi **Cynllunio** Cenedlaethol yn ymdrin â nifer o'r materion hyn. Yn yr un modd â nifer o fathau eraill o ddatblygiadau, gall gweithfeydd mwynau gael effaith gronnus andwyol ar yr amgylchedd ac/neu fwynderau lleol. Yn ogystal fe ddylid rhoi ystyriaeth briodol i'r buddiannau economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o weithio mwynau. |
| NMC | 310 | 7.5.71 | ***Dileu cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cenedlaethol Mwynau er mwyn diweddaru'r Cynllun:***<br>Mae'r ddau Gyngor yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb i warchod yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae **Pennod 14 o** Polisi Cynllunio ~~Mwynau~~ Cymru ~~2000 (PCMC)~~ wedi'i gefnogi gan Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1 Agregau 2004 ~~sydd~~ yn egluro'n glir na ddylid caniatáu datblygiadau mwynau mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Mae **Adran 14.3 o Polisi Cynllunio Cymru** ~~PCMC~~ yn amlinellu'r materion y dylid rhoi sylw iddynt wrth ystyried bwriad i weithio mwynau un ai o fewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, neu'n agos i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. |
| **NMC** | **311** | MWYN 6 | **Dileu'r cyfeiriad at gylchfeydd rhagod tybiannol a dileu geiriad y polisi er mwyn adlewyrchu Polisi Cynllunio Cenedlaethol:-** |

| Rhif NMC | | Polisi/<br>Para/Map | Newid Materion sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | **POLISI MWYN 6: CYLCHFEYDD RHAGOD SAFLEOEDD MWYNAU**<br><br>**Gwrthodir ceisiadau cynllunio i gloddio mwynau o fewn cylchfeydd rhagod a nodir ar y Map Cynigion oni bai y gellir darparu cylchfeydd rhagod newydd sy'n adlewyrchu'r isafswm pellter y cyfeirir ato yn NCTM 1: Agregau; oni bai fod yna resymau clir a chyfiawnadwy dros leihau'r pellter, h.y. ble fo yna effaith bychan yn deillio o'r safle echdynnu mwynau.** ~~Bydd cylchfeydd rhagod tybiannol yn cael eu cymhwyso i bob cais cynllunio newydd ar gyfer gweithio mwynau yn unol â'r lleiafswm pellter y cyfeirir ato yn NCTM 1: Agregau, ac mewn achosion ble na all cylchfeydd rhagod tybiannol sicrhau'r lleiafswm pellter angenrheidiol, bydd y datblygiad yn cael ei wrthod.~~<br><br>~~Yr unig achos ble caniateir estyniadau i weithfeydd mwynau yw lle y gellir cynnal cylchfa ragod addas rhwng datblygiadau mwynau a datblygiadau sensitif.~~<br><br>**Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau sensitif (yn enwedig tai, ysbytai ac ysgolion) yn unol â'r hyn a ddiffinnir yn NCTM 1: Agregau, o fewn y cylchfeydd rhagod a nodi ar y Map Cynigion** ~~ac o fewn unrhyw gylchfeydd rhagod tybiannol~~, ~~. Gwrthodir datblygiadau o fewn cylchfa ragod sy'n llai na'r pellter a argymhellir~~ **oni bai fod yna rhesymau clir a chyfiawnadwy yn cael eu rhoi dros wneud hynny, ac y gellir dangos na fydd unrhyw effeithiau andwyol na gwrthdaro gyda'r gwaith mwynau.**<br><br>~~Mewn~~ **O fewn yr Ardal Ymgynghori Glo (Ardaloedd Datblygiad Risg Uchel)** ~~**ar gyfer Glo**~~ **sydd wedi eu nodi ar y Map Cyfyngiadau** ~~**Cynigion**~~**, bydd datblygiad ond yn cael ei ganiatáu o fewn ffiniau anheddleoedd ble y gellid profi drwy ymchwiliadau geotechnegol bod unrhyw effeithiau ymsuddiant posib yn medru cael eu lliniaru drwy feithrin dulliau ymarfer da o adfer ac echdynnu blaenorol ble'n briodol.** |
| NMC | 312 | 7.5.81 | ***Cynnwys geiriad pellach i geiriad yr eglurhad er mwyn cyfeirio at ol-ofal pyllau benthyg:-***<br><br>Gweithfeydd mwynau dros dro yw pyllau benthyg a ddatblygwyd i gyflenwi prosiect adeiladu penodol. Gall pyllau benthyg gynnig buddiannau amgylcheddol sylweddol o gymharu â chyflenwi mwynau o'r cronfeydd presennol gan ostwng y pellteroedd cludo. |

| Rhif NMC | | Polisi/<br><br>Para/Map | Newid Materion sy’n Codi |
|---|---|---|---|
| | | | Efallai y bydd cytundebau mawr angen swm mwy o fwynau dros gyfnod llai o amser a allai achosi effeithiau amgylcheddol sylweddol ac aflonyddwch i gymunedau lleol. Fe ddylid lleoli pyllau benthyg o fewn neu gerllaw'r prosiect ac os yn bosib dylent gyflenwi deunydd yn uniongyrchol heb ddefnyddio ffyrdd cyhoeddus. Mae angen manteision amlwg i’r amgylchedd o ddefnyddio pwll benthyg yn hytrach na chyflenwad o agregau eilaidd neu wedi eu hailgylchu, neu o weithfeydd mwynau presennol sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun. Dylai gwaith adfer **ac ol-ofal** fod o**’r** safon uch**af** sydd yn ddisgwyliedig ar safleoedd mwynau mewn **cydymffurfiaeth a Pholisi MWYN 10.** |